Lletygarwch – Cyngor Tracio, Olrhain a Diogelu

Lletygarwch, gan gynnwys tafarndai, bariau, bwytai a chaffis
Gallwch chi chwarae rhan bwysig drwy helpu eich staff, eich cwsmeriaid ac ymwelwyr i ddeall pwysigrwydd cyfundrefn Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, er mwyn iddynt gyfrannu at geisio atal COVID-19 rhag lledaenu. Mae bellach yn **ofyniad cyfreithiol** eich bod yn gofyn am wybodaeth cyswllt gan eich cwsmeriaid a dylech fod yn eu hannog i'w darparu.

Pa wybodaeth sydd angen i mi ei chasglu, a chan bwy?
Lle bo modd, dylid casglu'r wybodaeth a ganlyn yn y lleoliad, sef:
Staff

- enwau'r staff sy'n gweithio yn y safle;
- rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob aelod o staff;
- dyddiadau ac amseroedd gwaith y staff

Cwsmeriaid ac ymwelwyr

- enw'r cwsmer neu'r ymwelydd. Os oes mwy nag un person, gallwch gofnodi enw 'aelod arweiniol' y grŵp, ynghyd â nifer y bobl yn y grŵp
- rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob cwsmer neu ymwelydd, neu ar gyfer aelod arweiniol grŵp o bobl
- dyddiad yr ymweliad, amser cyrraedd ac, yn ddelfrydol, amser gadael
- os bydd cwsmer yn ymwneud yn bennaf ag un aelod o staff yn unig, dylid nodi enw'r aelod staff gydag enw'r cwsmer

Ni ddylid casglu unrhyw ddata ychwanegol i'r diben hwn a bu rhaid cofnodi data personol gydymffurfio a chanllawiau'r *ICO* a gofynion RhGDC (GDPR).

Am ba mor hir y dylwn gadw'r cofnodion?

I gefnogi Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, dylech gadw'r cofnodion am 21 diwrnod.

Rhaid cael mesurau addas yn eu lle i ddiogelu gwybodaeth gyswllt cwsmeriaid. Peidiwch â rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid gyda chwsmeriaid eraill. Ystyriwch yn ofalus pa ddulliau a ddefnyddir gennych i gasglu'r wybodaeth. Yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio cardiau unigol yn hytrach na rhestri hir y gallai pobl eraill eu gweld. Os bydd eich cwsmeriaid yn rhannu beiros, bydd yn rhaid eu diheintio rhwng pob cwsmer.

Pryd dylid rhannu gwybodaeth â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru
Bydd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn gofyn am y cofnodion yma dim ond pan fydd angen, naill ai oherwydd bod rhywun sydd wedi cael canlyniad

positif am COVID-19 wedi rhestru eich safle fel rhywle lle maen nhw wedi ymweld ag ef yn ddiweddar, neu oherwydd bod eich eiddo wedi cael ei enwi fel lleoliad achosion posibl o COVID-19.

Os bydd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn cysylltu â chi
Bydd swyddogion olrhain cysylltiadau yn cysylltu â chi drwy ffonio o'r rhif penodol hwn: 02921 961133

Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y bydd swyddog o Tîm Gwarchod y Cyhoedd / Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn cysylltu â chi fel rhan o unrhyw ymchwiliad.